**Y Pwyllgor Diwylliant CC-11-02(min)**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 29 Mai 2002 |
| **Amser:** | 9.00am-12.30pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Y Cynulliad Cenedlaethol |

**Presennol:**

Rhodri Glyn Thomas (Plaid Cymru, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, Cadeirydd)

Jenny Randerson (Democrat Rhyddfrydol, Canol Caerdydd, Gweinidog y Cynulliad)

Owen John Thomas (Plaid Cymru, Canol De Cymru)

Lorraine Barrett (Llafur, De Caerdydd a Phenarth)

Dafydd Wigley (Plaid Cymru, Caernarfon)

Glyn Davies (Ceidwadwr, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Delyth Evans (Llafur, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Alison Halford (Llafur, Delyn)

Rosemary Butler (Llafur, Gorllewin Casnewydd)

**Ymddiheuriadau:** Dim

**Swyddogion**

Julia Annand (Clerc y Pwyllgor)

Prys Davies (Is-adran Diwylliant a'r Gymraeg)

O Gwyn Griffiths (Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol)

Margaret Evans (Pennaeth Is-adran y Celfyddydau, y Loteri a Chwaraeon)

**Hefyd yn bresennol:**

Euryn Ogwen Williams (Ymgynghorydd Arbenigol y Pwyllgor)

**Datganiadau o fuddiant:**

- Rhodri Glyn Thomas – aelod o fwrdd cysgodol cais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop 2008.

- Dafydd Wigley - ei wraig yn aelod amlwg o gymuned y celfyddydau yng Nghymru; roedd wedi derbyn grant gan Gyngor Llyfrau Cymru ac roedd ganddo gysylltiadau ffurfiol â Hijinx Theatre.
- Mae partner Delyth Evans yn gweithio â Pholisi Cyfathrebu a'r Cyfryngau yn Rhif 10 Downing Street.
- Rosemary Butler – Cadeirydd Prosiect Amgueddfa Genedlaethol Diwydiant a'r Môr.

**Eitem 1: Adolygiad o'r Gymraeg – Papur: CC-11-02(p.1)**

Cyflwynodd y Cadeirydd ddrafft cyntaf yr adroddiad ar adolygiad polisi'r Pwyllgor o'r Gymraeg. Pwysleisiodd mai drafft cyntaf ym mhob ystyr oedd 'Ein Hiaith: Ei Dyfodol' - (CC 11-02 p1), a'i fod yn anghyflawn. Roedd y cyfarfod yn gyfle i wella'r cynnwys.

Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor mai cylch gwaith yr adolygiad oedd awgrymu strategaeth i wireddu amcan y Cynulliad Cenedlaethol sef 'creu Cymru ddwyieithog'. Gan mai dim ond 18% o'r boblogaeth a fedrai siarad Cymraeg, yr amcan cyffredinol, o raid, oedd twf. Roedd yn bwysig, fodd bynnag, peidio â cheisio cyflawni hyn trwy orfodaeth. Y weledigaeth, yn hytrach, oedd creu pontydd fel bod modd i dwf ddigwydd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau hynny a oedd wedi cyfrannu at ddrafftio'r adroddiad cyn y cyfarfod. Mynegwyd pryder, fodd bynnag, mai dim ond y bore hwnnw yr oedd rhai cyfraniadau wedi eu cyflwyno, ac felly mai prin oedd yr amser a oedd ar gael i'r Pwyllgor ystyried y

gwelliannau a gynigiwyd. Pan ofynnwyd iddo ynghylch eu statws, dywedodd y Cadeirydd bod i'r papurau a osodwyd gerbron yr un statws ag unrhyw sylwadau llafar. Awgrymodd y dylid eu cynnwys i'w trafod yn yr ail gam drafft.

Bu peth trafod hefyd ar y broses ddrafftio. Ymhlith yr awgrymiadau er gwella yr oedd: rhifo llinellau neu baragraffau; adolygu cynnydd yn gyson; penderfynu ar gasgliadau fesul adran yn ystod yr adolygiad. Dywedodd y Cadeirydd y byddai unrhyw newidiadau yn cael eu nodi yn yr ail ddrafft.

Yna aeth y Pwyllgor ymlaen i drafod penodau unigol yn yr adroddiad.

<u>Deddfwriaeth</u>

Bu cryn drafod ar gynigion Dafydd Wigley ynghylch Deddf Iaith Gymraeg newydd. Cytunwyd y câi'r gwelliannau eu hystyried ymhellach yn yr ail gam drafft, ond na fyddid yn cynnwys y gwelliannau hynny y teimlai aelodau eu bod yn wleidyddol eu natur neu y gallent beri gwrthdaro. Gofynnid i aelodau bleidleisio ar faterion gwirioneddol a oedd yn costrelu ysbryd barn y Pwyllgor, ond nid ar bob pwynt unigol nac ar semanteg.

Ar bwyntiau penodol:

- Derbyniodd y Cadeirydd welliant y Gweinidog i'r argymhelliad cyntaf - 'The 1993 Act should be used as fully as the powers in it permit, so that the limits of those powers are reached before any comprehensive new legialtion is sought'
- Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Adran yr Arglwydd Ganghellor ynghylch posibilrwydd darparu rheithgorau Cymraeg eu hiaith ac i argymell eu bod yn cynnal prosiect prawf.

<u>Tai a Chynllunio</u>

Yn ystod y trafod codwyd y pwyntiau canlynol:

- <u>Yngl•n â Thai</u> - cytunodd y Pwyllgor i roi dau baragraff a awgrymwyd gan Dafydd Wigley yngl•n â darpariaeth tai i bobl leol a hawl pobl i fyw yn eu cymunedau eu hunain yn lle'r trydydd paragraff.

- Holwyd pa mor ymarferol oedd yr ail argymhelliad a oedd yn cael ei gynnig; cytunwyd y dylid ymchwilio i hyn.

- Bu peth trafod hefyd ar werth system bwyntiau, ond teimlai rhai aelodau eu bod yn crwydro i feysydd lle nad oedd gan y Pwyllgor arbenigedd.
- Cytunodd y Pwyllgor i gynnwys dau welliant Dafydd Wigley ynghylch defnyddio pwerau

awdurdodau lleol i alluogi pobl leol i gael tai naill ai trwy eu prynu neu drwy eu rhentu yn eu cymuned eu hunain. Cynigiai'r ail welliant y dylai'r Llywodraeth egluro'r term 'anghenion lleol'.

- Yngl•n â Chynllunio - canolbwynt y drafodaeth oedd yr ail argymhelliad ynghylch posibilrwydd gwneud caniatâd cynllunio yn ofynnol cyn newid statws annedd parhaol yn gartref gwyliau.
- Cynigiodd Dafydd Wigley welliant sef y dylai caniatâd cynllunio fod yn ofynnol pan oedd nifer y tai gwyliau yn fwy na 10% (neu drothwy arall) o'r stoc presennol o dai. Ni chefnogwyd hyn gan bob aelod.

Cyfieithu

Dyma'r materion a gododd yn ystod y drafodaeth:

- Nid oes digon o gyfieithwyr yng Nghymru a dylai'r adroddiad argymell cael hyd i ffyrdd o fynd i'r afael â hyn.
- Roedd awgrym wedi ei wneud y dylid cynnwys cyfieithu yn y cwricwlwm.
- Mae datblygiad y diwydiant cyfieithu yng Nghymru yn gyfle economaidd enfawr sydd wedi ei golli.
- Nododd y Gweinidog y byddai'r feirniadaeth yn yr argymhelliad cyntaf ynghylch yr oedi â chyflwyno cynllun iaith y Cynulliad yn hen hanes erbyn cyhoeddi'r adroddiad. Dywedodd fod hen gynllun y Swyddfa Gymreig yn dal mewn grym.
- Awgrymwyd y dylid ymdrin â mater darparu fersiynau Cymraeg neu Saesneg na ofynnwyd amdanynt.

Gwnaed y pwyntiau hyn ynghylch gweddill penodau'r adroddiad:

- Dylid ychwanegu argymhelliad at y bennod ar Ddatblygu Economaidd a Chymunedau Cynaliadwy yn nodi y dylai strategaethau llwyddiannus Menter a Busnes a sefydliadau lleol eraill fwydo cynllunio economaidd gan y prif asiantaethau yn y dyfodol.
- Wrth ymateb i bryderon ynghylch yr adran ar Addysg, Hyfforddiant a Dysgu Gydol Oes, eglurodd y Cadeirydd mai mater i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes (ADGO) oedd y bennod hon yn bennaf, ac y byddai'r pwyllgor hwnnw'n ystyried y drafft cyntaf ar 12 Mehefin.
- Cytunwyd i anfon y pedwar argymhelliad ychwanegol a gynigiwyd gan Owen John Thomas ar gyfer y bennod ar Addysg at y Pwyllgor ADGO. Roedd y rhain yn ymwneud â:

- Sicrhau bod addysg Gymraeg ei chyfrwng ar gael (ar sail galw) i blant tair oed yn eu cymunedau lleol.
- Gosod targedau ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth hon.
- Pwysigrwydd Addysgofal ar gyfer y blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg.

- Hyrwyddo hyn gan yr uned bolisi arfaethedig yn y Cynulliad a’r fforwm iaith.

- Cytunwyd i roi ystyriaeth bellach i’r gwelliannau a gynigiwyd gan Dafydd Wigley ar effeithiolrwydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

**Eitem 2: Trafodaeth ar y Mesur Cyfathrebu - Papur CC 11-02 (p2)**

Cynrychiolwyr yr ITC:

Derec Llwyd Morgan – Yr Aelod dros Gymru ar y Comisiwn Cenedlaethol

Stella Mair Thomas – Pennaeth ITC Cymru

Peter Bourton – Pennaeth Polisi Rheoleiddio’r DU

Greg Bensberg – Cyfarwyddwr Prosiect – Cynllunio Digidol

Yn eu sylwadau rhagarweiniol, dywedodd yr ITC:

- Eu bod, ynghyd â’r rheoleiddwyr eraill, wedi chwarae rhan bwysig yn y gwaith o lunio’r Mesur.
- Roedd eu papur wedi’i seilio ar eu cyflwyniad diweddar i’r Cyd-bwyllgor Manylu.
- Cred yr ITC y dylai creu un rheolydd yn hytrach na’r pump presennol sicrhau rheoleiddio cyflymach a mwy priodol.
- Bydd creu mwy o gyfleoedd ar gyfer perchenogaeth ar y cyfryngau, ond â mesurau diogelu priodol, yn darparu cronfa fwy o lawer o fuddsoddi a doniau.
- Roedd yn iawn ac yn briodol i bob un o’r pedair cenedl gael ei chynrychioli ar y Bwrdd Cynnwys.
- Mae gan yr ITC rai pryderon ynghylch y rheoleiddio arfaethedig ar Ddarlledu Gwasanaethau Cyhoeddus, ond at ei gilydd maent yn cefnogi’r hyn a gynigir.
- Adroddodd yr ITC fod £1 m ychwanegol wedi ei fuddsoddi mewn rhaglenni rhanbarthol, a £2m ar gyfer cenhedloedd a rhanbarthau’r. Byddai hanner awr ychwanegol o newyddion HTV hefyd yn ystod oriau brig.

Yn y drafodaeth a ddilynodd ar y Mesur Cyfathrebu, gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Wrth ymateb i gwestiwn am ddiogelu rhaglennu rhanbarthol yn y dyfodol, dywedodd yr ITC eu bod wedi cyhoeddi siartr yr wythnos honno ar ddarlledu yn y cenhedloedd a’r rhanbarthau. Roedd hon wedi ei mabwysiadu gan y cwmnïau teledu annibynnol ym Mhrydain ac yn y dyfodol byddai’n cael ei mabwysiadu gan OFCOM. Er bod ei rhoi ar waith yn dibynnu ar ewyllys da, teimlai’r ITC y byddai OFCOM yn sicrhau y byddai hynny’n digwydd.

- Teimlai'r aelodau ei bod yn gwbl hanfodol i Gymru gael ei chynrychioli ar y Bwrdd Cynnwys a'r Panel Defnyddwyr ond teimlent fod angen mwy o eglurder yn y Mesur ynghylch goblygiadau'r ddau gorff arfaethedig i Gymru. Teimlent hefyd y dylai OFCOM fod â swyddfa effeithiol yng Nghymru. Cytunai'r ITC.
- Teimlai'r ITC y gellid cryfhau cynrychiolaeth genedlaethol a rhanbarthol trwy Gynghorau Gwylwyr ac Ymgynghorol, o'u hailddatblygu yn Banelau Cynnwys mwy cynrychioliadol. Gallai'r cynrychiolwyr cenedlaethol gadeirio'r Cynghorau newydd a dylai hynny helpu i fwydo gwybodaeth i'r Bwrdd Cynnwys ynghylch buddiannau arbennig gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig. Teimlai'r Pwyllgor y byddai hynny'n fodd i farn cynulleidfaoedd gael ei hystyried ac y dylid ei argymell.

- Wrth ymateb i gwestiwn yn holi sut y byddai barn cynulleidfa ehangach yn cael ei hystyried, dywedodd yr ITC y byddai eu Cyngor Gwylwyr Ymgynghorol yn cael ei droi'n Banel Cynnwys. Byddai ei gwmpas yn cael ei ehangu i gynnwys cynrychiolwyr radio a thelegyfathrebu. At hynny, roedd rhan o'r Siartr yn ei gwneud yn ofynnol cael Panelau Ymgynghorol i ymdrin â'r hyn a gâi ei gynhyrchu.
- Roedd S4C wedi mynegi pryder ynghylch posibilrwydd gorgyffwrdd rhwng cyfrifoldebau'r Bwrdd Cynnwys a'r Panel Defnyddwyr. Cytunai'r ITC y gallai'r Panel fynd i gors trafod cynnwys ac y dylai ganolbwyntio'n hytrach ar faterion yn ymwneud â darparu gwasanaeth. Dylai'r Mesur wneud hyn yn fwy eglur.
- Mynegwyd pryder ynghylch y cynigion yngl•n â dyfarnu trwyddedau, a allai beri bod cwmnïau yn mynd i drafferthion difrifol ac nad oeddent yn cynnig unrhyw gymhelliad i fuddsoddi. Ystyriai'r ITC y ddarpariaeth yn y Mesur fel gwaith a oedd ar y gweill ac roeddent yn trafod â'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Roeddent yn awyddus i gadw'r drefn bresennol a oedd yn annog buddsoddi. Dylai fod tybiaeth y dylid cadw cwmnïau os oeddent wedi cyflawni'r gofynion.

<u>Materion yn ymwneud â Chynllunio Teledu Digidol</u>

Cyflwynodd Greg Bensberg y papur a oedd yn tynnu sylw at y ffaith bod 42% o Gymru yn derbyn teledu digidol o gymharu â 68% yn y DU. Roedd treialon yn cael eu cynnal yn Lloegr ar ddyblu p•er trosglwyddo ar gyfer digidol heb effeithio ar wasanaethau analog. Tanlinellodd hefyd bolisi'r Llywodraeth, sef bod rhaid i bobl allu derbyn darllediadau o wasanaethau cyhoeddus sut bynnag yr oeddent yn derbyn eu gwasanaeth teledu – trwy gyfrwng lloeren, digidol, daearol neu gêbl.

Yn ystod y trafod:

- Roedd pryder ei bod yn bosibl na fyddai gan y prif ddarlledwyr ddefnydd o loeren nes y byddid yn newid i ddarlledu digidol. Dywedodd yr ITC y byddai'r Mesur Cyfathrebu (sy'n dod â Chyfarwyddebau Cyfathrebu i rym) yn darparu ar gyfer hawl rheolyddion i

awdurdodi mynediad at rwydweithiau gan gyflenwyr masnachol. Byddai gan Ddarlledwyr Gwasanaethau Cyhoeddus felly hawl i gael mynediad at y rhwydweithiau hynny ar delerau teg a gwarant o fynediad trwy wasanaethau telegyfathrebu electronaidd.

- Wrth ymateb i bryder a fynegwyd na ddylai teuluoedd ar incwm isel fod dan anfantais oherwydd y newid, dywedodd yr ITC mai polisi'r Llywodraeth oedd na fyddai'r newid yn digwydd nes gallai pobl ei fforddio.

- Wrth gloi, cynghorodd yr ITC y Pwyllgor i bwyso am:

- Ddiogelu ansawdd ac amrywiaeth ar y teledu yng Nghymru ynghyd ag amser yn ystod oriau brig.
- Cynrychiolaeth o Gymru ar gynifer o bwyllgorau OFCOM ag oedd modd, ac yn arbennig ar y Bwrdd Cynnwys.
- Swyddfa i OFCOM yng Nghymru.

**Eitem 3: Adroddiad y Gweinidog - Papur CC 11-02 (p3)**

- Cyhoeddwyd penodiad Paul Loveluck yn Llywydd Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru a Susan Davies yn Is-Lywydd. Nodwyd cyfraniad gwerthfawr Anna Southall tra bu'n Gyfarwyddwr yr Amgueddfa Genedlaethol gan y Pwyllgor, ac fe'i llongyfarchwyd ar ei phenodiad newydd yn Gyfarwyddwr Resource.

- Mae Cynllun Busnes yr Ardd Fotaneg Genedlaethol yn cael ei ddatblygu. Cyfarfu'r Gweinidog â'r Cadeirydd ar 22 Ebrill a chafodd wybod bod sawl cyfarfod wedi ei gynnal o fuddsoddwyr. Mae yna gynnig o gyllid o £5 miliwn o gyfalaf a £750,000 o refeniw dros dair blynedd.

- Roedd Dafydd Wigley yn dymuno cofnodi ei foddhad â'r datblygiad a fu yngl•n â phrosiect Canolfan Gelfyddydau Caernarfon.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Mehefin 2002**